# Sefydlu a chynnal a chadw cydberthnasau gweithio effeithiol yn yr awyr agored

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â sefydlu a chynnal a chadw cydberthnasau gweithio effeithiol gyda chyfranogwyr, cydweithwyr ac eraill.

Mae'r safon hon yn cynnwys dau brif ddeilliant, sef:

1. sefydlu a chynnal a chadw cydberthnasau gweithio effeithiol gyda chyfranogwyr, cydweithwyr ac eraill
2. gweithio'n effeithiol gyda chydweithwyr ac eraill

Mae'r safon hon ar gyfer staff sydd â rhywfaint o brofiad o weithio yn yr awyr agored ac sy'n gallu gweithio heb unrhyw oruchwyliaeth uniongyrchol.  Mae'n bosib y bydd ganddyn nhw rywfaint o gyfrifoldeb dydd-i-ddydd dros waith aelodau staff llai profiadol a neu waith mewn timau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Sefydlu a chynnal a chadw cydberthnasau gweithio effeithiol gyda chyfranogwyr, cydweithwyr ac eraill**

*
*

1.
sefydlu a chynnal a chadw cyswllt â **chyfranogwyr, cydweithwyr ac eraill** gan ddilyn gweithdrefnau'r sefydliad
2.
datgan eich brwdfrydedd dros yr awyr agored ac anturio yn yr awyr agored gyda **chyfranogwyr, cydweithwyr** ac **eraill**
3.
ysgogi **cyfranogwyr** a meithrin eu hyder
4.
cyfathrebu gan barchu cyfrinachedd ar yr un pryd
5.
addasu eich dull o weithio i gyfarfod ag anghenion sy'n newid
6.
adnabod a chymryd camau mewn perthynas â therfynau **cyfranogwyr**
7.
hybu ethos o werthfawrogi amrywiaeth, her, gwahaniaethu a hollgynhwysedd
8.
ymdrin â gwrthdaro yn unol â rheoliadau a gweithdrefnau'r sefydliad
9.
dilyn canllawiau moesegol

**Gweithio'n effeithiol gyda chydweithwyr ac eraill**

1.
rhoi argraff bositif ohonoch eich hun a'ch sefydliad i **eraill**
2.
trafod a chytuno ar amcanion cyffredinol gydag eraill
3.
cynllunio gyda **chydweithwyr** ac **eraill** a chytuno ar swyddogaethau unigol

4.
cyflawni amcanion drwy waith tîm effeithiol
5.
trafod a chytuno ar newidiadau i gynlluniau'r sesiwn neu'r rhaglen
6.
gofyn am gefnogaeth gan **gydweithwyr** ac **eraill** pan fydd angen hynny
7.
creu a defnyddio cyfleoedd ar gyfer adolygu gweithio effeithiol
8.
rhoi **adborth** effeithiol i **gydweithwyr** ac **eraill**
9.
annog a derbyn **adborth** oddi wrth **gydweithwyr** ac **eraill**
10.
defnyddio adborth i wella gweithio gyda **chydweithwyr** ac **eraill**
11.
dirprwyo cyfrifoldebau yn effeithiol a diogel i **gydweithwyr** ac **eraill**
12.
monitro gwaith **cydweithwyr**
13.
mesur perfformiad yn erbyn amcanion cytunedig y sesiwn neu'r rhaglen
14.
rhoi **cefnogaeth** i **gydweithwyr** ac **eraill**

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Sefydlu a chynnal a chadw cydberthnasau gweithio effeithiol gyda chyfranogwyr, cydweithwyr ac eraill**

* *

1. gofynion cyfreithiol, moesegol a phroffesiynol perthnasol a gweithdrefnau'r sefydliad
2. pwysigrwydd ymddiriedaeth, didwylledd a gonestrwydd wrth weithio gyda chyfranogwyr, cydweithwyr ac eraill
3. pwysigrwydd annog ac ysgogi cyfranogwyr ac eraill a meithrin eu hunanhyder
4. pwysigrwydd cyfathrebu'n effeithiol gyda chyfranogwyr, cydweithwyr ac eraill
5. pam ei bod yn bwysig gallu mabwysiadu gwahanol ddulliau yn unol â gwahanol sefyllfaoedd ac anghenion
6. pwysigrwydd adnabod ac ymateb i derfynau corfforol ac emosiynol sy'n gymwys i gyfranogwyr ac eraill
7. y mathau o amrywiaeth rydych yn debyg o ddod ar eu traws wrth weithio gyda chyfranogwyr, cydweithwyr ac eraill
8. pam bod amrywiaeth ymhlith cyfranogwyr, cydweithwyr ac eraill yn bwysig a pham y dylid parchu ac adeiladu ar hyn
9. mathau o wahaniaethu all ddigwydd a sut i herio'r rhain yn effeithiol
10. y mathau o wrthdaro rydych yn debygol o ddod ar eu traws wrth weithio gyda chyfranogwyr ac eraill a sut i ddelio â'r rhain yn unol â'r gweithdrefnau

**Gweithio'n effeithiol gyda chydweithwyr ac eraill**

1.
ystod a swyddogaethau cydweithwyr ac eraill y byddwch o bosib yn gweithio gyda nhw
2.
pam ei bod yn bwysig rhoi argraff bositif ohonoch eich hun a'ch sefydliad i eraill, a sut i wneud hyn
3.
dulliau o gyd-drafod sgiliau a chytuno ar amcanion cyffredinol
4.
y dulliau o gynllunio gyda chydweithwyr ac eraill a chytuno ar swyddogaethau unigol
5.
natur deinameg tîm gyda chydweithwyr ac eraill, ac effaith hyn ar weithio'n effeithiol
6.
gwahanol swyddogaethau mewn tîm a sut i weithio'n effeithiol fel aelod o dîm
7.
y mathau o sefyllfaoedd pryd y bydd angen i chi addasu cynlluniau tîm o bosib
8.
pwysigrwydd addasu, cyd-drafod a chytuno ar gynlluniau sesiwn neu raglen, a sut i wneud hyn
9.
pwysigrwydd adnabod pryd y mae angen cymorth a chefnogaeth arnoch yn eich gwaith ac adnabod ffynonellau cymorth a chefnogaeth
10.
pwysigrwydd creu a defnyddio cyfleoedd i adolygu gweithio'n effeithiol
11.
dulliau o roi adborth adeiladol i gydweithwyr ac eraill
12.
sut i gael a defnyddio adborth gan gydweithwyr ac eraill er mwyn gwella arferion gweithio
13.
y dulliau o ddirprwyo gwaith i gydweithwyr ac eraill a hynny'n effeithiol a diogel
14.
y dulliau o fonitro gwaith cydweithwyr heb achosi unrhyw aflonyddwch
15.
sut i fesur eu perfformiad yn erbyn amcanion cytunedig y sesiwn neu'r rhaglen
16.

sut i ddarparu cefnogaeth effeithiol i gydweithwyr ac eraill a phwysigrwydd gwneud hynny

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**1. Cyfranogwyr**

1.1 oedolion

1.2 plant a phobl ifanc

1.3 grwpiau nad yw eu haelodau yn adnabod ei gilydd

1.4 cyfranogwyr sydd ag anghenion arbennig mewn perthynas â'r gweithgaredd

1.5 unigolion

1.6 grwpiau

**2. Cydweithwyr**

2.1 staff ar lefel uwch

2.2 gweithio ar yr un lefel

2.3 gweithio mewn rôl ategol

2.4 cydweithwyr annibynnol

2.5 cydweithwyr o sefydliadau eraill

**3. Eraill**

3.1 rhieni

3.2 cleientiaid

3.3 aelodau'r cyhoedd (sy'n gweithio mewn lleoliadau cyhoeddus neu sydd â hawliau tramwy cyhoeddus)

3.4 oedolion eraill fel arweinwyr partïon

**4. Terfynau**

4.1 corfforol

4.2 emosiynol

**5. Cefnogaeth**

5.1 cyngor a gwybodaeth

5.2 cymorth uniongyrchol

5.3 rhannu sgiliau

5.4 cefnogaeth emosiynol

**6. Adborth**

6.1 ffurfiol

6.2 anffurfiol

6.3 cadarnhaol

6.4 negyddol

6.5 awgrymiadau ar gyfer gwella

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth

**1. Gwahanol ddulliau**

1.1 dulliau arwain

1.2 dulliau cyfathrebu

1.3 dulliau dysgu

## Sgiliau

Rhestrir isod y prif sgiliau a'r priodoleddau generig sy'n gymwys i'r dasg o gyflwyno Rhaglenni Awyr Agored.

1. Empathi
2. Gwrando'n weithredol
3. Hyfforddi
4. Cyfathrebu
5. Ymgynghori
6. Dylanwadu a pherswadio
7. Dirprwyo
8. Diplomyddiaeth
9. Galluogi
10. Hwyluso
11. Dilyn
12. Arwain drwy esiampl
13. Rheoli ymddygiad heriol
14. Mentora
15. Ysgogi
16. Trafod a chyfaddawdu

17.
Sicrhau adborth
18.
Cynllunio a gwerthuso
19.
Darparu adborth
20.
Pennu amcanion
21.
Gwerthfawrogi a chefnogi eraill

## Geirfa

**Adeiladol**

Gonest, cefnogol, realistig ac uniongyrchol

*
*

**Canllawiau moesegol**

Fframwaith o egwyddorion a gwerthoedd sy'n cyfarwyddo pob agwedd ar arferion gweithio

*
*

**Amcanion**

Set o ddeilliannau sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd arfaethedig ar eich cyfer chi, eich sefydliad neu gyfranogwyr

*
*

**Terfynau corfforol ac emosiynol**

Deall sut i gydbwyso cryfderau corfforol ac emosiynol unigolion â sialensiau cyffredinol a phenodol yr awyr agored a sut i adnabod a rheoli'r sialensiau a'r terfynau perthynol ar gyfer lles a llwyddiant yr unigolyn.

*
*

**Staff sydd â rhywfaint o brofiad**

Person sydd wedi gweithio yn y sector awyr agored am o leiaf ddau neu dri thymor a neu ddwy neu dair blynedd. Mae'n bosib y bydd e/hi wedi symud ymlaen o swydd iau a neu swydd gychwynnol i ymdrin erbyn hyn â gweithgareddau, lleoliadau a/neu gyfranogiadau mwy cymhleth.

*
*

**Dull gweithio**

Yn ymwneud â dulliau arwain, rheoli a chyfathrebu

## Cysylltiadau â SGC eraill

Mae'r safon hon yn cyplysu â SKAOP1, SKAOP2, SKAOP3, SKAOP4 a SKAOP13

SKAOP5

Sefydlu a chynnal a chadw cydberthnasau gweithio effeithiol yn yr awyr agored

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | SkillsActive |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2014 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Ebr 2018 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | SkillsActive |
| **RCU gwreiddiol** | SKAD14 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt a Galwedigaethau Technegol, Hamdden; teithio a thwristiaeth, Chwaraeon; hamdden ac adloniant, Galwedigaethau Chwaraeon a Ffitrwydd |
| **Cyfres/Set** | Rhaglenni Awyr Agored |
| **Geiriau Allweddol** | sefydlu; cynnal a chadw; cydberthnasau gweithio; awyr agored; effeithiol; cydweithwyr; cyfranogwyr; sefydliadau |